

Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18 Adroddiad technegol peilot: Crynodeb

Bydd adroddiad technegol llawn yr arolwg peilot yn cael ei gyhoeddi yn ystod yr wythnosau i ddod

Crynodeb Gweithredol

Arolwg Cyflwr Tai Cymru (WHCS) 2017-18 yw'r arolwg cenedlaethol cyntaf o gyflwr tai yng Nghymru ers yr Arolwg Eiddo Byw yng Nghymru yn 2008. Mae'r WHCS yn cael ei gynnal ar ran Llywodraeth Cymru gan y Sefydliad Ymchwil Adeiladu Ltd. Bydd y WHCS yn arolygu tua 2,500 o eiddo dros gyfnod o 9 mis, yn dechrau ym mis Awst 2017. Daw'r sampl arolygu o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017-18 a gynhelir ar ran Llywodraeth Cymru gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS).

Cyn i'r prif arolwg ddechrau, cynhaliwyd astudiaeth beilot i brofi'r holl brosesau a gweithdrefnau, gan efelychu'r prif arferion gwaith maes mor agos â phosibl. Cynhaliwyd yr astudiaeth beilot ar gyfer y WHCS ym mis Mai 2017. Parhaodd y gwaith maes am 2 wythnos ac fe'i cynhaliwyd gan syrfewyr a fyddai'n rheolwyr rhanbarthol ar gyfer y prif waith maes. Rhoddwyd gwybodaeth i'r 4 rheolwr rhanbarthol am yr arolwg, offer yr arolwg a'r feddalwedd reoli yr oedd angen iddynt eu profi yn ystod y gwaith maes.

Dewiswyd y sampl o blith achosion cymwys o'r Arolwg Cenedlaethol lle y cafwyd caniatâd i gynnal archwiliad ffisegol yn ystod mis cyntaf y gwaith maes ym mis Ebrill 2017. I fod yn gymwys ar gyfer yr astudiaeth beilot, roedd yn ofynnol bod aelwydydd wedi cymryd rhan yng nghyfweliad yr Arolwg Cenedlaethol, a'u bod yn byw mewn eiddo rhent neu eiddo a oedd wedi adfeilio rhywfaint neu'n berchen-feddiannydd eiddo a oedd mewn cyflwr da. Aseswyd adfeiliad gan gyfwelwyr yr ONS yn ystod eu hymweliad cyntaf â chyfeiriad. Rhoddwyd gwybodaeth lawn iddynt am sut i asesu hyn cyn i'r gwaith maes ddechrau. Y gyfradd ganiatâd i gynnal archwiliad ffisegol a gafwyd yn ystod y cyfnod peilot oedd 66%. Rhoddodd 87 aelwyd ganiatâd, ac fe'u trosglwyddwyd i BRE i gynnal archwiliad ffisegol.

Rhannwyd y rhain ymhlith y 4 rheolwr rhanbarthol a oedd yn gweithio yn awdurdodau lleol Abertawe, Sir y Fflint a Wrecsam. Yn ystod y cyfnod gwaith maes, cwblhawyd 43 arolwg ar gyfradd drosi o 49%.

Cynhaliwyd sesiwn ôl-drafod wyneb yn wyneb â'r rheolwyr rhanbarthol i gasglu adborth am yr astudiaeth beilot, gan gynnwys pa agweddau ar ffurflen, systemau a phrosesau'r arolwg a weithiodd yn dda a pha newidiadau yr oedd angen eu gwneud. Dywedodd yr holl reolwyr rhanbarthol fod yr astudiaeth beilot

Dyddiad Cyhoeddi: 6 Rhagfyr 2018

Awduron: Chris Beer, y Sefydliad Ymchwil Adeiladu Ltd.

Gowan Watkins, Llywodraeth Cymru

E-bost: stat.housingconditions@gov.wales

Rhif ffôn: 0300 025 6340

Gwefan: <http://www.gov.wales/whcs>

Twitter: [www.twitter.com/statisticswales](https://twitter.com/statisticswales) | [www.twitter.com/ystadegaucymru](https://twitter.com/ystadegaucymru)

wedi gweithio' n dda ac nad oedd unrhyw broblemau mawr o ran ffurflen yr arolwg, y deunyddiau i ymatebwyr, y systemau na'r prosesau. Gwnaed mân awgrymiadau i newid safle rhai cwestiynau ar ffurflen yr arolwg ac i newid rhai ymatebion i gwestiynau ailgysylltu yn y cyfweiliad Arolwg Cenedlaethol.

Bydd yr adroddiad llawn ar gael yn ystod yr wythnosau i ddod ar [dudalen we](#) WHCS. Bydd yn amlinellu manylion y fethodoleg, y gwaith maes, yr adborth gan syrfewyr a chyfwelwyr ONS, yr argymhellion a'r camau gweithredu y cytunwyd i'w cymryd cyn i'r prif waith maes ddechrau ym mis Awst 2017.



Mae'r holl gynnwys ar gael o dan [Drwydded Llywodraeth Agored v3.0](#), heblaw lle y nodir fel arall.